# CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL.

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 6ed o Fedi 2016 yn yr Hen Ysgol Eglwyswrw gan gychwyn am 7.30y.h.

Dechreuodd y cyfarfod am 7.30 gan fod cynrychiolwyr o'r Parc Cenedlaethol yn y cyfarfod I drafod TAN 6.

Presennol

Cadeirydd: Julie Charlton

Cynghorwyr: Enid Cole, Ceirwyn John, Ieuan Davies, Robin Phillips, Alwyn Evans

Cynghorydd Sir: Cyng Keith Lewis

Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd:

Croesawodd y cadeirydd yr aelodau I'r cyfarfod.

Ymddiheiriadau:- Lon Davies, Llinos Davies.

Cofnodion 05.07.16

Cynigodd Enid Cole ac eiliodd Ieuan Davies fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion

34 – Palmant- Mae rhai o'r Cynghorwyr wedi bod mewn cysylltiad gyda'r cymdogion lleol sydd yn cael ei efeithio gan y palmant ynglyn a tir a.y.b. Cyng. Keith Lewis dal yn edrych ar y sefyllfa yma.

Gohebiaeth

35. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro cais cynllunio Mr. Derek Lewis, Wenfo, Brynberian cais ar gyfer estyniad a sied ar gyfer yr ardd. Roedd pawb yn hapus gyda'r cais.
36. Cyfanswm yn y Banc – 25.7.2016 - £1,896.14
37. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Mr a Mrs. Butler, Dolgoed, Brynberian. Cais ar gyfer estyniad I'r stabal a stafell offer ar gyfer Ysgol farchogaeth dan do. Roedd pawb yn hapus gyda'r cais.
38. Adroddiad Blynyddol 2015/16 Tai Sir Benfro – Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb.
39. GIG Cymru – Sgwrs Iach- Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb ac fe fydd hefyd yn yr hysbysfwrdd.
40. Cyngor Sir Benfro – Cais Cynllunio Mr. a Mrs. Meirion Rees, Nant Y Coed, Eglwyswrw dymchwel, newidiadau a estyniad I Nant Y Coed. Roedd pawb yn hapus gyda'r cais
41. Cyngor Sir Penfro – Presept ail daliad 2016/17 - £1,417.00
42. Cyfanswm yn y Banc 25.8.2016 - £3,314.14 yn cynnwys Presept
43. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Mr. a Mrs Phillips Mirianog Fawr, Eglwyswrw. Llythyr I cadarnhau bod y cais wedi dderbyn.

Unrhyw Fater Arall

44. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Gwybodaeth ynglyn a tynnu fwrdd blwchiau ffon cyhoeddus o fewn y Parc Cenedlaethol. Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb.

45. Cyngor Sir Benfro – Hysbysiad o sied amaethyddol – Simon Davies, Trewilym Uchaf, Eglwyswrw.
46. Grant Thornton – Awdit Blynyddol- Dosbarthwyd y wybodaeth ynglyn ar adroddiad blynyddol I pawb. Cynigodd Alwyn Evans ac eiliodd Ceirwyn John I dderbyn y wybodaeth. Taliad o £189.00 a TAW yw dalu.
47. Cyngor Sir Benfro – Mr. N. Davies, Flat Llain, Eglwyswrw – gwybodaeth ynglyn a gwrandawiad yng Nghanolfan Hermon ynglyn a newid defnydd gweithdy I lle byw.
48. Cyngor Sir Benfro – Mr. N. Davies, Flat, Llain, Eglwywrw – gwybodaeth ynglyn a gwrandawiad yng Nghanolfan Hermon ynglyn a newid defnydd y tir a'r adeilad ar gyfer defnydd gweithdy a lle preswyl.
49. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais cynllunio Mrs. Erica Collins, Ty Newydd, Brynberian – Diddymu amod 6 I ganiatau defnydd llawn o'r annexe. Roedd pawb yn hapus gyda'r cais.
50. Is Gadeirydd – Fel y nodwyd mewn cyfarfod balenorol roedd Alwyn Evans ddim yn medru cymeryd at y swydd. Cynigodd Alwyn Evans ac eiliodd Ceirwyn John enw Robin Phillips fel Is gadeirydd am 2016/17.
51 Iard Ysgol Eglwyswrw – Mae Mr. Edryd Eynon eisiau gwneud gwell defnydd o Iard uchaf yr Ysgol er mwyn ei bod yn cael ei defnyddio gan plant y pentre. Roedd pawb yn hapus I cefnogi y fenter hon ac fe fydd Mr. Eynon yn edrych I mewn ym mhellach ar gyfer yswiraint a.y.y.b.

**Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 4ydd o Hydref am 8.00y.h.**

**Terfynwyd y Cyfarfod am 9.10y.h.**